**HYSBYSIAD CADARNHAU GORCHYMYN CROESFAN REILFFORDD (GWYRO)**

**DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 119A**
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**(GWYRO LLWYBR TROED 16 LLANGRALLO ISAF)**
**GORCHYMYN GWYRO CROESFAN REILFFORDD RHIF. 1 2025**

Ar 09/04/2025 cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y Gorchymyn uchod, a wnaed o dan Adran 119A o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992). Effaith y Gorchymyn fel y'i cadarnhawyd yw gwyro'r rhan honno o Lwybr Troed 16 Llangrallo Isaf, gan ddechrau ym Mhwynt A (Cyfeirnod Grid SS 9500 8035), i'r de o'r llinell reilffordd, ac sy'n mynd yn ei flaen i gyfeiriad cyffredinol y gorllewin-gogledd-orllewin drwy gae a buarth am tua 158 metr i Fferm Torcoed, Pwynt B (Cyfeirnod Grid 8404) i ddarn newydd o lwybr troed sy'n dechrau ym Mhwynt A (Cyfeirnod Grid SS 9500 8035), i'r de o'r llinell reilffordd, ac sy'n mynd yn ei flaen i gyfeiriad cyffredinol y gorllewin-de-orllewin am tua 147 metr ar hyd llwybr â wyneb graeanog cyn pasio drwy gât cae ym Mhwynt C (Cyfeirnod Grid SS 9487 8028). Mae'r llwybr wedyn yn parhau i gyfeiriad y gorllewin-de-orllewin am tua 7 metr gan derfynu â'i gyffordd â Llwybr Troed 15 Llangrallo Isaf ym Mhwynt D (Cyfeirnod Grid SS 9487 8027), fel y dangosir ar fap y gorchymyn. 1.8 metr fydd lled y llwybr cyhoeddus newydd.

Gellir archwilio copi o'r gorchymyn a gadarnhawyd a map y gorchymyn, a chael copi ohonynt yn rhad ac am ddim, yn Nerbynfa'r Swyddfeydd Dinesig yn y cyfeiriad a roddir isod rhwng yr amseroedd canlynol o Ddydd Llun i Ddydd Iau: 8:30am - 5pm / Dydd Gwener: 8:30am - 4:30pm.Fel arall, gellir archwilio'r gorchymyn a'r map ar-lein yn: https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/ neu drwy gysylltu â rightsofway@bridgend.gov.uk neu drwy ffonio: 01656 642545.

Daw'r gorchymyn i rym o 08/05/2025, ond oes unrhyw berson y tramgwyddir arno gan y gorchymyn yn dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd, neu unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir ynddo, ar y sail nad yw oddi mewn i bwerau Deddf Priffyrdd 1980 fel y cafodd ei diwygio, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad yn y Ddeddf fel y cafodd ei diwygio, neu unrhyw reoliad a wnaed oddi tani, yn gysylltiedig â'r gorchymyn, caiff gyflwyno cais i'r Uchel Lys o dan baragraff 2 o Atodlen 2 o'r Ddeddf, fel y'i cymhwyswyd gan baragraff 5 o Atodlen 6 y Ddeddf, cyn pen chwe wythnos ar ôl 17/04/2025.

Os oes angen yr hysbysiad hwn arnoch mewn fformat arall, er enghraifft, print mwy, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol yn y cyfeiriad isod neu ffonio'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid: 01656 643643.

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg yn cael ei hateb yn y Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi cyn ymateb.

**DYDDIEDIG:**17/04/2025

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB

HIG001-1122/TE/H/MPP/FP16CYL